Llywydd Anrh:
Hon President:
Tim Ash, Bovey Tracy

Is-lywydd Anrh:
Hon Vice-presidents:
Bruce McKay, Pennal
Meirion & Ceinwen Owen, Llanfachraeth

GWARTHEG HYNAFOL CYMRU
ANCIENT CATTLE OF WALES

Ysgrifennydd:
Secretary:
Sian Ioan,
Croesheddig Newydd,
Pentre'r Bryn,
Llandysul,
Ceredigion,
SA44 6NB
(01545 560255)

Cylchlythyr Haf 2017 - *Summer 2017 Newsletter*

Gŵyl Wanwyn 2017

Gwnaeth GHC gryn argraff yn yr Ŵyl Wanwyn yn Llanelwedd ar 20-21 Mai eleni, drwy gipio'r wobr gyntaf ar gyfer y stondinau gwartheg.

Cafwyd cryn ddiddordeb yn y brid gyda nifer o ddarpar aelodau a sefydliadau a allai fod yn bartneriaid potensial yn dangos chwilfrydedd. Hyderir y daw ffrwyth i'n llafur yn y misoedd nesaf.

Diolch Jane a Mike Ricketts-Hine a Mike Lewis am gynorthwyo Sian a Gareth Ioan ar y stondin.

Yn y llun gwelir y beirniad, Mr Richard Jones, yr arwerthwr amaethyddol o Ddolgellau, a chyn-Lywydd CAFC; ynghyd â Mike Alexander o PONT, noddwyr y gystadleuaeth; yn gwobrwyo ein swyddogion â dysgl risial, tystysgrif, rhuban a siec am £175!

RWAS Spring Festival 2017

ACW made its mark on the RWAS Spring Festival again this year. The Society won the competition for the best cattle information stand at the 20-21 May show.

Much interest was shown in the cattle by prospective members and breeders, along with potential organisational partners. We hope that new contacts will bear fruit in the coming months.

Thanks are due to Jane and Mike Ricketts-Hine and Mike Lewis for assisting Sian and Gareth Ioan with the stand.

The picture shows the judge, Mr Richard Jones, the Dolgellau auctioneer and past President of RWAS, and Mike Alexander of sponsors, PONT, presenting our officers with a crystal bowl, rosette, certificate and a cheque for £175!

Radio Wales

Cafwyd sylw ar Radio Wales ym mis Mawrth pan ddaeth Rachel Garside i Groesheddig Newydd i recordio darn ar gyfer y rhaglen *Country Focus*. Darlledwyd yr erthygl ar 24 Mawrth ac roedd ar gael ar wefan y BBC am fis wedi hynny. Cafodd argraff dda o'r gwartheg a chymerodd ddiddordeb mawr yn eu hanes.

Radio Wales

ACW featured on Radio Wales' *Country Focus* on 24 March. Rachel Garside of the popular rural affairs slot visited Sian and Gareth Ioan to learn all about ACW and was very impressed with the breed and our back-story. The episode was available on the BBC website for the following month.

FAnGR

Cyhoeddodd FAnGR ei gylchlythyr diweddaraf ym Mawrth. Mae'n cynnwys manylion am drefniadau i eithrio rai bridiau prin rhag eu difa oherwydd clefydau egsotig, ynghyd â newyddion arall perthnasol o'r maes. Gallwch gofrestru i dderbyn y cylchlythyr ar wefan FAnGR:

https://www.gov.uk/government/groups/farm-animal-genetic-resources-committee-fangr

FAnGR

FAnGR published its latest newsletter in March. It contains information about opt-outs for rare breeds from culling due to exotic diseases and other relevant news from the rare breed field. You can register to receive the newsletter on the FAnGR website:

https://www.gov.uk/government/groups/farm-animal-genetic-resources-committee-fangr

Pwyllgor GHC

Bydd swyddogion GHC yn cyfarfod am bwyllgor yng Ngwesty Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, am **7.30p.m., nos Lun 19 Mehefin**. Mae hwn yn **gyfarfod agored** i unrhyw aelod sydd eisiau cyfrannu at ddatblygiad y gymdeithas. Croeso i bawb. Rhowch wybod i Sian os ydych yn bwriadu dod. Diolch. Welwn ni chi 'na!

ACW Committee Meeting

ACW officers will be meeting at the Llanelwedd Arms Hotel, Builth Wells, at **7.30p.m., Monday, 19 June**. This will be an **open meeting** and any member interested in furthering the cause of ACW is more than welcome to attend. Give Sian a quick bell or e-mail if you intend coming. Thanks. See you there!.

Llyfrgell Genedlaethol

Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn archifo gwefan GHC er mwyn ei diogelu i'r dyfodol. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Jane Ricketts-Hine am gadw gofal o'r wefan. Byddai Jane yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth sydd gan aelodau i'w rannu ar y wefan – yn newyddion, hanesion, dogfennau, lluniau hanesyddol ac ati.

Gwerthu Stoc

Yn dilyn yr Ŵyl Wanwyn mae nifer o bobl wedi cysylltu yn holi am brynu stoc. Os oes gennych anifeiliaid ar werth – yn enwedig heffrod neu fuchod – rhowch wybod i Sian, os gwelwch yn dda. Diolch.

Cofiwch hefyd bod modd gosod gwartheg ar werth ar y wefan.

Cyfarfod Blynyddol

Os nad ydyw yn eich dyddiadur yn barod, cofiwch mai dyddiad ein Cyfarfod Blynyddol eleni yw 23ain Medi 2017. Byddwn yn cyfarfod yn rhywle cyfleus ym Maesyfed ar ôl ymweld â buches Mapledraig.

National Library of Wales

In an interesting development, the National Library of Wales at Aberystwyth will be archiving the ACW website for posterity. We are indebted to Jane Ricketts-Hine for acting as our webmaster. Jane would love to receive any items that members would wish to share on the website – news, stories, documents, old pictures etc..

Selling Stock

Following the Spring Festival we have had a number of enquiries regarding stock purchases. If you have any animals for sale – heifers and cows in particular - please let Sian know. Thanks.

Moreover, remember that stock can be advertised on the website.

AGM

If it isn't already in your diary, make a note of 23rd September for our AGM and farm visit. This year we will be at a convenient venue in Radnorshire, after visiting Mike Lewis and Liz Lewis Reddy's Mapledraig herd.

Gwartheg Dre-fach yn mwynhau'r haul ar ôl hirlwm gaeaf.
Some of the Dre-fach herd enjoying the sun after a long winter indoors.